# Canllawiau Asesu Effaith Ofcom

Datganiad ar ein canllawiau diwygiedig

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 19 Gorffennaf 2023

# Cynnwys

## Adran

1. Trosolwg ... 3
2. Cyflwyniad ... 4
3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ... 7
4. Crynodeb o’r newidiadau rydyn ni wedi’u gwneud ... 23

A1 Asesu effaith y newidiadau ... 25

# 1. Trosolwg

Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer sector cyfathrebu'r DU. Yn y rôl hon rydyn ni'n gwneud amrywiaeth o benderfyniadau polisi er budd dinasyddion a defnyddwyr, a phan fo'n briodol i hybu cystadleuaeth. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol o ran sut rydyn ni'n asesu effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

Ar 17 Mawrth 2023, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar ddiweddaru ein canllawiau asesu effaith i adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol, ein harferion gorau a'n profiad. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad terfynol o ran y cynnig hwnnw.

**Ein penderfyniadau – yn gryno**

- Rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig i ddiweddaru ein canllawiau asesu effaith. Bydd y canllawiau diweddaraf yn berthnasol i brosiectau Ofcom sy'n dechrau ar neu ar ôl 19 Gorffennaf 2023.
- Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad, rydyn ni wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau i'n canllawiau arfaethedig.
- Yn benodol, rydyn ni wedi gwrando ar bryderon rhanddeiliaid ynglŷn ag amlygrwydd ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus. Yn nhestun ein canllawiau diwygiedig, rydyn ni wedi cydnabod ein dyletswydd i hybu cyfleoedd cyfartal yn fwy penodol ac wedi integreiddio trafodaeth o'n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus ym mhrif gorff y canllawiau, yn hytrach nag mewn adran ar wahân ar 'ddyletswyddau statudol eraill'.

1.1 Yn Adran 3 o'r ddogfen hon, rydyn ni'n crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'n penderfyniadau. Yn Adran 4, rydyn ni'n crynhoi'r newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud. Yn yr Atodiad, rydyn ni'n crynhoi'r casgliadau ar effaith ein newidiadau. Mae ein canllawiau diweddaraf wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad hwn.

# 2. Cyflwyniad

## Ein dull o asesu effeithiau

2.1 Rydyn ni'n cydnabod bod y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Felly, mae'n bwysig ein bod yn meddwl yn ofalus cyn penderfynu a fyddai ymyriad polisi penodol yn briodol.

2.2 Rydyn ni'n defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosib ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maen nhw hefyd yn ein helpu i esbonio'r penderfyniadau polisi rydyn ni wedi penderfynu eu gwneud.

2.3 Mae angen i'r ffordd rydyn ni'n asesu effeithiau ein penderfyniadau arfaethedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth a chanlyniad. Mae hefyd yn bwysig ein bod bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi.

2.4 Diben ein canllawiau ar asesu effaith yw nodi ein dull gweithredu cyffredinol o ran sut rydyn ni'n asesu ac yn cyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

## Pam rydyn ni'n diweddaru ein dull gweithredu ar gyfer asesiadau effaith

2.5 Mae'r cyd-destun yr ydyn ni'n llunio asesiadau effaith ynddo wedi newid ers inni gyhoeddi'r canllawiau diwethaf yn 2005.[1]

2.6 Mae ein cyfrifoldebau cyfreithiol wedi ehangu, ac rydyn ni bellach yn rheoleiddio ystod ehangach o sectorau, pob un â'i nodweddion a'i heriau ei hun. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd wedi cael eu cyflwyno, ochr yn ochr â newidiadau deddfwriaethol eraill, nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd yn ein canllawiau ar gyfer 2005.

2.7 Er nad yw egwyddorion sylfaenol asesu effaith wedi newid yn sylweddol, mae adnoddau a chanllawiau newydd ar gael erbyn hyn. Er enghraifft, mae canllawiau Trysorlys EM yn y llyfrau Gwyrdd a Magenta wedi cael eu diweddaru. Mae dulliau newydd fel theorïau newid wedi cael eu cyflwyno yn y llenyddiaeth i helpu llunwyr polisi i rannu eu rhesymeg. Mae safbwyntiau dadansoddol newydd wedi cael eu defnyddio, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth am ymddygiad i ystyried ymddygiad defnyddwyr, a defnyddio setiau data mawr i wneud rhagfynegiadau.

2.8 Rydyn ni hefyd wedi parhau i ddatblygu ein dull o ddeall effaith ein gwaith. Er enghraifft, ers cyhoeddi canllawiau 2005, rydyn ni wedi cyflwyno gwerthusiadau terfyn rhaglen cyfnodol i adolygu effaith polisïau penodol ar ôl rhoi cyfle iddynt wreiddio.

2.9 Fe wnaethom ymgynghori ar ein cynigion ym mis Mawrth eleni ac mae'r newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn wedi'u cyflwyno isod.

[1] Better policy making: Ofcom's approach to impact assessments

# Ein cynigion yn yr ymgynghoriad

2.10 Dyma’r prif newidiadau a oedd dan sylw yn yr ymgynghoriad:

a) **Cydnabod sut mae ein dyletswyddau’n amrywio ar draws ystod fwy a mwy eang o sectorau.** Roedd ein canllawiau arfaethedig yn adlewyrchu rhai o amrywiadau bach gwahanol drefniadau a’n hystod gynyddol o ddyletswyddau. Fe wnaethom gynnig y newid hwn i sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o asesu effaith, o ystyried cyd-destun y polisi perthnasol a’n dyletswyddau statudol.

b) **Cadw ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd, gan egluro y bydd y gyfraith yn mynnu ein bod yn ymyrryd o bosib.** Fe wnaethom gynnig egluro y gallai’r gyfraith fynnu ein bod yn ymyrryd mewn rhai achosion. Pan nad yw’r gyfraith yn mynnu ein bod yn gwneud hynny, fe wnaethom gynnig y byddem yn cadw ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd a phan fyddwn yn ymyrryd, byddwn yn cynnal yr egwyddor o sicrhau mai unrhyw ymyriad yw’r ffordd leiaf ymwthiol o gyflawni ein hamcanion.

c) **Diweddaru sut rydyn ni’n cyflwyno ein hasesiadau effaith i randdeiliaid.** Fe wnaethom gynnig tynnu’r canllawiau y bydd asesiadau effaith yn cael eu cyhoeddi fel atodiad ar wahân yn gyffredinol. Fe wnaethom gynnig yn lle ein bod yn esbonio y bydd ffurf yr asesiad effaith rydyn ni’n ei gyflwyno yn amrywio yn dibynnu ar yr hyn sy’n briodol yn yr amgylchiadau yn ein barn ni, ond gan nodi y byddai ein dogfennau, yn gyffredinol, yn amlinellu canfyddiadau unrhyw asesiad effaith yn glir ac mewn lle priodol.

d) **Rhagor o gydnabyddiaeth bod effeithiau ansoddol yn rhan bwysig o asesu penderfyniadau polisi.** Fe wnaethom gynnig rhoi rhagor o bwyslais yn ein canllawiau ar y ffaith fod asesiadau ansoddol yr un mor bwysig ag asesiadau meintiol. Fe wnaethom esbonio bod angen rhoi pwys priodol ar bob effaith wrth gynnal asesiad, p’un ai ein bod wedi mesur yr effeithiau hynny ai peidio.

e) **Cydnabod bod asesiadau effaith yn fewnbwn pwysig ar gyfer gwerthusiadau terfyn rhaglen.** Fe wnaethom gynnig diweddaru’r canllawiau i adlewyrchu sut mae asesiadau effaith yn cyfrannu at y sail ar gyfer gwerthuso a monitro terfyn rhaglen yn y dyfodol. Roedd ein canllawiau arfaethedig yn cydnabod pwysigrwydd asesiadau effaith yn ein rhaglen fonitro a gwerthuso ehangach.

f) **Diweddaru sut rydyn ni’n datblygu asesiad effaith yng ngoleuni dulliau ac adnoddau asesu newydd.** Fe wnaethom gynnig bod ein canllawiau’n canolbwyntio ar sut rydyn ni’n datblygu asesiad effaith fel rhan o broses ailadroddus. Roedd hyn yn adlewyrchu’r pwyslais ychwanegol rydyn ni am ei roi ar feddwl am effeithiau posib drwy gydol prosiect. Fe wnaethom hefyd esbonio y gallwn ddefnyddio dulliau asesu a chanllawiau newydd wrth gynnal asesiadau effaith.

g) **Diweddaru’r canllawiau i gyfeirio at ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus a’n rhwymedigaethau mewn cysylltiad â’r Gymraeg.** Fe wnaethom gynnig diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu ein dyletswyddau cydraddoldeb presennol, ein dyletswyddau i ystyried yr effeithiau posib ar anghenion a buddiannau’r grwpiau o bobl a nodir yn adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a’n dyletswyddau mewn cysylltiad â’r Gymraeg. Fe wnaethom gynnig ychwanegu adran newydd at ddiwedd ein canllawiau i roi sylw i’r dyletswyddau hyn.

# Ymateb i'r ymgynghoriad

2.11 Cawsom ymatebion gan Belong, Better Media, BT, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau (CCP), Leicester Community Radio (LCR), Openreach, Vodafone, a dau unigolyn. Mae fersiynau anghyfrinachol o'r holl ymatebion hyn wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. [2]

2.12 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn croesawu ein cynnig i ddiweddaru ein canllawiau asesu effaith ac wedi darparu sylwadau penodol ar sut byddai modd gwella ein canllawiau diwygiedig arfaethedig. Rydyn ni wedi nodi'r ymatebion hyn a'r hyn rydyn ni wedi'i benderfynu mewn rhagor o fanylder yn Adran 3.

[2] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/draft-impact-assessment-guidance?showall=1

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom

## Egwyddorion cyffredinol a dyletswyddau statudol

### Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.1 Roedd Vodafone ac Openreach yn croesawu ein bwriad i gadw ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd. Hefyd roedd Openreach yn croesawu ein bwriad i sicrhau bod unrhyw ymyriad gennym yn cael ei wneud yn y ffordd leiaf ymwthiol posib. Ychwanegodd Vodafone, pan ydyn ni'n ystyried a ddylid ymyrryd, y dylem roi pwys mawr ar yr *"effaith ymledol debygol ar gystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi mewn rhannau eraill o'r sefydliad sy'n destun yr ymyriad"*.

3.2 Roedd ymatebion gan Better Media, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a Belong yn canolbwyntio ar y diffyg cyfeiriadau at ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus yn yr egwyddorion cyffredinol sy'n arwain ein ffordd o weithredu – roeddent yn awgrymu'n gyffredinol y dylai'r dyletswyddau hyn fod yn amlycach yn ein canllawiau, yn cael eu hystyried yng nghamau cyntaf datblygu polisi, ac y dylem fod yn fwy rhagweithiol wrth ymyrryd. Er enghraifft roedd Better Media wedi awgrymu, er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus, y dylem ddangos gogwydd tuag at ymyrryd ac ymyrryd yn y ffordd fwyaf effeithiol (yn hytrach na lleiaf ymwthiol) i gyflawni ein hamcanion.

3.3 Dywedodd Vodafone y dylai Ofcom fanteisio ar y cyfle i gysoni â dull rheoleiddio'r llywodraeth o dan y Fframwaith Rheoleiddio Gwell.

3.4 Awgrymodd Better Media ein bod yn cyflwyno hierarchaeth o anghenion a buddiannau sy'n blaenoriaethu'r dinesydd yn gyntaf, yna'r defnyddiwr, cynhyrchydd y cynnwys, y llwyfan a chyflenwr y dechnoleg. Hefyd, holodd pam nad oedd sôn am asesiadau carbon net neu economi gymdeithasol yn ein canllawiau.

### Ymateb Ofcom

#### Gogwydd yn erbyn ymyrryd / dull lleiaf ymwthiol

3.5 Mae Ofcom yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae ein dyletswyddau wedi'u gosod mewn statud, sy'n golygu ein bod yn atebol i Senedd y DU a'r llysoedd. Ein dyletswyddau statudol sy'n arwain cyfeiriad ein gwaith.

3.6 Ein prif ddyletswydd yn adran 3(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, a hynny drwy hybu cystadleuaeth pan fo'n briodol. Wrth gyflawni ein dyletswyddau a'n swyddogaethau, rhaid inni wneud y canlynol:

a) Rhoi sylw i'r egwyddorion tryloywder, atebolrwydd, cymesuredd a chysondeb, yn ogystal â sicrhau bod ein camau gweithredu wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen gweithredu (adran 3(3)(a) o Ddeddf 2003).
b) Rhoi sylw i ba mor ddymunol yw hybu a hwyluso datblygiad a defnydd o fathau effeithiol o hunan-reoleiddio, lle bo'n berthnasol (adran 3(4) o Ddeddf 2003).

c) Adolygu ein gwaith yn barhaus i sicrhau nad ydyn ni'n cyflwyno neu'n cadw rheoliadau sy'n feichus heb fod rhaid (adran 6(1) o Ddeddf 2003).

3.7 Yn fwy cyffredinol, rydyn ni'n rhwym wrth y ddyletswydd cyfraith gyhoeddus o degwch, sy'n golygu y dylai unrhyw gamau gweithredu rydyn ni'n eu cymryd fod yn gymesur. Wrth benderfynu pa gamau sy'n gymesur, mae'r Llysoedd wedi esbonio ei bod hi'n berthnasol ystyried a fyddai hi wedi bod yn bosib defnyddio mesur llai ymwthiol.[3]

3.8 I gydymffurfio â'n dyletswyddau statudol yn Neddf 2003 ac â chyfraith gyhoeddus, rydyn ni felly wedi penderfynu cadw ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd a bod unrhyw ymyriad yn cael ei wneud yn y ffordd leiaf ymwthiol posib i gyflawni ein hamcanion. Ar ben hynny, ac fel yr esbonnir ym mharagraff 1.4 ein canllawiau, rydyn ni'n cydnabod y gall ein penderfyniadau arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid ac felly ei bod hi'n bwysig ein bod yn meddwl yn ofalus cyn penderfynu a fyddai ymyriad polisi penodol yn briodol.

3.9 Byddwn dim ond yn ymyrryd pan fyddwn yn fodlon y bydd ein hymyriad yn effeithiol o ran cyflawni ein hamcanion, ac yn gwneud hynny yn y ffordd leiaf ymwthiol. Bydd pennu ein hamcanion cyffredinol ar ddechrau prosiect yn golygu ystyried nifer o wahanol ddyletswyddau statudol sy'n berthnasol i achos penodol yn aml (gan gynnwys ein prif ddyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, dyletswyddau penodol i sectorau, a dyletswyddau i ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl).

3.10 Ni fydd yr ateb mwyaf effeithiol i gyflawni un ddyletswydd yr ateb mwyaf effeithiol i gyflawni un arall o reidrwydd. Yn yr achosion hyn, rydyn ni'n cynnal ymarfer cydbwyso ac yn gwneud penderfyniad ynghylch ein hamcanion cyffredinol, gan ystyried y dyletswyddau hyn sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Nid yw cael gogwydd yn erbyn ymyrryd a dewis y dull lleiaf ymwthiol yn ein hatal rhag gwneud penderfyniadau mawr â chostau uchel iawn o bosib os ydyn ni'n credu mai'r penderfyniad hwnnw yw'r ffordd fwyaf effeithiol a chymesur o gyflawni ein hamcanion. Rydyn ni wedi penderfynu ychwanegu paragraffau newydd yn 4.16 - 4.18 yn ein canllawiau i egluro'r pwyntiau uchod.

## Amlygrwydd dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus

3.11 Rydyn ni'n cydnabod bod gennym ddyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus[4] i roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

a) cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd mewn cysylltiad â nodweddion gwarchodedig;
b) hybu cyfleoedd cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, a phobl nad ydynt yn gwneud hynny.

3.12 Rydyn ni'n cytuno â'r ymatebion a oedd yn nodi pwysigrwydd ystyried y rhwymedigaethau cydraddoldeb sector cyhoeddus hyn yng nghamau cyntaf prosiect wrth benderfynu a ddylid ymyrryd, ac os felly sut, ac y dylent fod yn amlycach yn y canllawiau. I fynd i'r afael â phryderon y gallai ymddangos bod cydymffurfio â'n dyletswyddau cydraddoldeb yn asesiad eilaidd, rydyn ni wedi penderfynu diwygio ein canllawiau i wneud y canlynol:

a) nodi ein dyletswyddau i ystyried yr effeithiau ar grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys ein dyletswyddau cydraddoldeb) yn glir yn Adran 2 o'n canllawiau;
b) tynnu Adran 5 o'n canllawiau, a oedd yn nodi ein dyletswyddau statudol eraill (gan gynnwys ein dyletswyddau cydraddoldeb) ac integreiddio'r rhannau perthnasol yn Adran

[3] Gweler, er enghraifft, paragraff 20 yn [Bank Mellat v Trysorlys EF (Rhif 2)] [2013] UKSC 39.
[4] Gweler adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

3 (lle rydyn ni'n nodi'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol) ac yn Adran 4 (lle rydyn ni'n esbonio sut byddwn yn ystyried anghenion a buddiannau grwpiau penodol o bobl, ac yn asesu'r effaith arnynt fel rhan o'n hasesiad effaith cyffredinol).

## Dyletswyddau statudol eraill

3.13 Mewn cysylltiad â sylw Vodafone ynghylch yr effeithiau posib ar gystadleuaeth, arloesi a buddsoddi, rydyn ni'n cydnabod, wrth gyflawni ein dyletswyddau a lle bo'n berthnasol, bod adrannau 3(4)(b) a (d) o Ddeddf 2003 yn mynnu ein bod yn ystyried pa mor ddymunol yw hybu cystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi mewn marchnadoedd perthnasol. Rydyn ni wedi penderfynu diwygio paragraff 2.17 yn ein canllawiau i wneud y rhwymedigaethau hyn yn fwy clir, ac rydyn ni hefyd wedi diwygio Adran 4 o'n canllawiau i gyfeirio at yr effeithiau posib ar fuddsoddi ac arloesi (gweler paragraffau 4.32 a'r blwch yn 4.33).

3.14 O ran asesiadau carbon net, er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd ar draws yr economi, nid oes gennym unrhyw ddyletswyddau statudol penodol mewn cysylltiad â'r amgylchedd ar hyn o bryd. Mewn achosion lle mae'r effaith amgylcheddol yn debygol o fod yn sylweddol, byddem yn disgwyl ystyried effeithiau o'r fath fel rhan o asesiad ehangach o bolisi, gan ystyried ein prif ddyletswydd i ddinasyddion a defnyddwyr.[5]

## Fframwaith Rheoleiddio Gwell

3.15 Nodwn fod llywodraeth y DU wedi cyhoeddi papur polisi mewn cysylltiad â'i Fframwaith Rheoleiddio Gwell ar 10 Mai 2023. Rydyn ni'n deall bod y llywodraeth yn bwriadu lansio'r Fframwaith cyn bo hir a bod y Fonesig Athro Angela McLean yn adolygu dyletswyddau'r rheoleiddwyr economaidd (gan gynnwys Ofcom).

3.16 Nodwn fod gweledigaeth llywodraeth y DU yn y papur hwnnw'n cynnwys sicrhau mai dewis olaf, nid cyntaf, yw rheoleiddio; sicrhau bod gwaith craffu cynharach a mwy cyfannol yn cael ei wneud ar gynigion rheoleiddiol; a sicrhau gwerthusiadau cynharach a mwy cyson ar gyfer a yw rheoliad yn cyflawni ei nodau.

3.17 Rydyn ni'n credu bod ein canllawiau diwygiedig yn gyson â'r egwyddorion hyn, yn benodol:

a) Mae ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd a dewis y dull lleiaf ymwthiol i gyflawni ein hamcan yn golygu ein bod yn ystyried y dewis i hunan-reoleiddio, a phan fyddwn yn rheoleiddio, rydyn ni'n sicrhau bod unrhyw ymyriad yn gymesur.
b) Drwy ganolbwyntio o'r newydd ar gostau ansoddol yn ogystal â rhai meintiol (gan gynnwys yr effaith ar gystadleuaeth, arloesi a thwf, lle bo'n berthnasol), ynghyd â'n hymrwymiad i ystyried yr effeithiau ar anghenion a buddiannau amrywiaeth o grwpiau penodol o bobl, byddwn yn mabwysiadu dull cyfannol o asesu effeithiau cynnig.
c) Dylai ein dull gweithredu diwygiedig ar gyfer monitro a gwerthuso wella ein prosesau llunio polisi drwy ein galluogi i weld lle nad yw pethau wedi gweithio fel yr oeddem yn ei ddisgwyl, ac i ddysgu o'r achosion hyn.

3.18 Er hynny, byddwn yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad a'u hymgorffori mewn diwygiadau o'n canllawiau yn y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

[5] Mae gwybodaeth am sut rydyn ni'n gweithio tuag at fod yn sefydliad mwy amgylcheddol gynaliadwy ar gael ar ein gwefan.

### Pwysoli gwahanol effeithiau / hierarchaeth anghenion

3.19 Mae ein dull o asesu effaith ein cynigion yn cael ei arwain gan ein hegwyddorion cyffredinol a'n dyletswyddau statudol.

3.20 Er mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, nid oes gofyniad cyffredinol arnom i roi mwy o bwys ar rai effeithiau nag eraill. Byddwn yn ystyried effeithiau posib cynnig ar wahanol fathau o bobl a bydd ein dull o gydbwyso effeithiau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd yn dibynnu ar natur cynnig polisi, ac ar unrhyw ddyletswyddau statudol penodol sy'n berthnasol. Bydd hyn yn ein galluogi i benderfynu a ddylid ymyrryd, ac os felly beth yw'r ffordd orau o wneud hynny i gyflawni ein hamcanion.

# Amgylchiadau lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.21 Dywedodd Vodafone y dylai fod yn eithriad i Ofcom beidio â chyhoeddi asesiad effaith, a holodd ym mha amghylchiadau na fyddem yn cynnal asesiad effaith o bosib wrth gynnal ymchwiliad.

3.22 Gofynnodd Openreach a fyddem yn gallu nodi, mewn tabl, enghreifftiau o'r sectorau a'r trefniadau lle na fyddwn yn cynhyrchu asesiad effaith oherwydd bod deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd.

3.23 Roedd ymateb LCR yn canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb ac awgrymodd y gallai fod angen asesiadau effaith ar gyfer penderfyniadau unigol, nid dim ond polisïau sy'n diffinio.

3.24 Dywedodd Better Media, pan fydd Ofcom yn penderfynu peidio ag ymyrryd y dylem fod yn agored ac yn dryloyw o ran y rhesymau, ac adolygu'r penderfyniadau hynny yn rheolaidd.

## Ymateb Ofcom

3.25 Fel yr esbonnir ym mharagraff 3.5 yn ein canllawiau, mae asesiadau effaith yn arfer da wrth lunio polisi ac rydyn ni'n disgwyl eu cynnal mewn cysylltiad â mwyafrif helaeth ein penderfyniadau polisi. Yn ein canllawiau, rydyn ni wedi egluro bod hyn yn cynnwys polisïau a phrosesau newydd neu ddiwygiedig.

3.26 I fynd i'r afael â phryderon Vodafone, rydyn ni wedi diwygio'r enghraifft ddiwethaf lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith yn gyffredinol, a hynny ym mharagraff 3.6(e) yn ein canllawiau (3.5(d) yn y canllawiau drafft) i egluro na fyddwn, yn gyffredinol, yn cynnal asesiad effaith wrth gyhoeddi canllawiau ynghylch sut byddwn yn cynnal ymchwiliadau. Y rheswm am hynny yw y bydd canllawiau o'r fath yn darparu rhagor o wybodaeth am faterion gweithdrefnol o ran sut byddwn yn cyflawni rhwymedigaethau sydd wedi'u creu gan ddeddfwriaeth a fydd eisoes wedi bod yn destun asesiad effaith.

3.27 Hefyd rydyn ni wedi ychwanegu paragraff newydd, 3.7, i esbonio pan na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rhan o broses ymgynghori, byddwn yn esbonio pam.

3.28 Yng nghyd-destun ymchwiliad i gwmni sy'n cael ei reoleiddio, nodwn y byddem bob amser yn rhoi ein canfyddiadau dros dro i'r cwmni hwnnw ac y bydd cyfle i'r cwmni ddarparu sylwadau ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn ymateb.

3.29 Nid ydyn ni'n credu bod angen diwygio ein canllawiau i nodi'r sectorau a'r trefniadau lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith oherwydd bod deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd.

Mae ein rôl a'n rhwymedigaethau yn newid dros amser ac fel y nodwyd uchod, pan na fyddwn yn cynnal asesiad effaith, byddwn yn esbonio pam. Fodd bynnag, roedd paragraff 1.19 yn ein hymgynghoriad yn cynnwys rhai enghreifftiau o ddeddfwriaeth – fel Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth 2018 a'r Bil Diogelwch Ar-lein (fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd) – yn mynnu ein bod yn ymyrryd.[6] Mae paragraff 3.6(a) yn ein canllawiau hefyd yn esbonio y gallwn gynnal asesiad effaith os oes gennym ddisgresiwn o ran ein hunion ffordd o ymyrryd.

3.30 Fodd bynnag, rydyn ni wedi penderfynu diwygio paragraff 3.6 yn ein canllawiau i egluro y bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen inni gynnal asesiad effaith yn dibynnu ar natur y cynnig rydyn ni'n ei gyflwyno, yn benodol (i) a oes rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd benodol ac (ii) a yw cynnig unigol yn gweithredu polisi neu broses sydd eisoes wedi bod yn destun asesiad effaith. Rydyn ni hefyd wedi cynnwys rhywfaint o enghreifftiau ychwanegol o sefyllfaoedd lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rheol, a hynny ym mharagraff 3.6(b).

3.31 O ran awgrym LCR y dylem gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer penderfyniadau unigol, rydyn ni wedi ychwanegu paragraff newydd, 3.19, yn ein canllawiau i gadarnhau yn yr un modd y bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen inni gynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn dibynnu ar natur y cynnig rydyn ni'n ei gyflwyno, yn benodol (i) a oes rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd benodol ac (ii) a yw cynnig unigol yn gweithredu polisi neu broses sydd eisoes wedi bod yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Rydyn ni wedi cadarnhau bod yr enghreifftiau o sefyllfaoedd lle na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rheol hefyd yn enghreifftiau o sefyllfaoedd lle na fyddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb fel rheol.

3.32 Mewn ymateb i Better Media, pan fyddwn yn cynnal proses ymgynghori ac yn cynnig peidio ag ymyrryd, byddwn yn esbonio pam yn yr ymgynghoriad a'r datganiad. Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn credu ei bod hi'n briodol esbonio penderfyniad i beidio ag ymyrryd y tu allan i broses ymgynghori.

3.33 Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol nac yn gymesur esbonio pob penderfyniad i beidio ag ymyrryd yn gyhoeddus, gan gynnwys pan fydd ein gwaith cwmpasu a'n dealltwriaeth gychwynnol o sefyllfa yn golygu ein bod yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â phrosiect a dechrau proses ymgynghori. Fel y trafodwyd uchod, mae ein holl benderfyniadau yn seiliedig ar ein dyletswyddau statudol.

# Cwmpas y canllawiau

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.34 Dywedodd Vodafone y dylem wahaniaethu'n glir rhwng sut byddwn yn defnyddio ein canllawiau asesu effaith mewn penderfyniad rydyn ni'n eu gwneud fel rheoleiddiwr economaidd, a'r rhai rydyn ni'n eu gwneud fel rheoleiddiwr cynnwys.

[6] Er enghraifft, mae Rheoliad 3(3)(b) o Reoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth 2018 yn mynnu ein bod yn cymryd amrywiol gamau, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol. Byddai ein rhwymedigaethau o dan adran 36(1) o'r Bil Diogelwch Ar-lein (fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd) hefyd yn mynnu ein bod yn ymyrryd, gan gynnwys drwy gyhoeddi amrywiol godau ymarfer.

3.35 Dywedodd Better Media fod yn rhaid i'n prosesau asesu effaith *"fod yn addas i anghenion pob maes rheoleiddio, technoleg, gweithgarwch economaidd ac effaith gymdeithasol"*.

## Ymateb Ofcom

3.36 Mae'r egwyddorion yn ein canllawiau asesu effaith yn gyffredin i'n holl feysydd gwaith a byddwn yn eu defnyddio fel y bo'n briodol wrth wneud penderfyniadau ar draws ein holl waith. Rydyn ni'n cytuno â Better Media y dylai anghenion y penderfyniad rydyn ni'n ei wneud ddylanwadu ar y broses asesu effaith, ac mae ein canllawiau'n ddigon hyblyg i gefnogi hyn.

# Casglu gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.37 Roedd BT yn croesawu ein defnydd o Geisiadau am Fewnbwn a'n gwaith ymgysylltu arall â rhanddeiliaid. Roedd wedi argymell y dylem ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch eu safbwyntiau ar ganlyniadau unrhyw arolygon neu dechnegau gwybodaeth am ymddygiad eraill rydyn ni'n eu defnyddio.

3.38 Pwysleisiodd Belong a Better Media pa mor bwysig yw gwaith ymgysylltu Ofcom ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys pobl mewn cymunedau dan anfantais a sefydliadau cymdeithas ddinesig. Dywedodd Better Media yn benodol fod Ofcom yn rhy ddibynnol ar wybodaeth gan weithredwyr economaidd yn y diwydiannau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Hefyd awgrymodd y ddau ein bod yn sefydlu partneriaethau â chorff adolygu annibynnol ac â rhanddeiliaid mewn llywodraeth leol, cymdeithas sifil ac ati i ddatblygu neu asesu ein hasesiadau effaith.

3.39 Roedd Better Media ac unigolyn wedi tynnu sylw at yr angen inni ymgysylltu'n rhagweithiol â defnyddwyr, yn enwedig aelodau o grwpiau dan anfantais, a'u helpu i fynegi eu safbwyntiau. Yn fwy cyffredinol, dywedodd Better Media y dylem ystyried bod gennym ddyletswydd i wella llythrennedd o'r cyfryngau a sgiliau data a dadansoddi rhanddeiliaid sydd â phryderon o bosib, ond heb y sgiliau na'r dystiolaeth i'w mynegi.

### Data a monitro

3.40 Gofynnodd Belong a Better Media am ragor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn casglu data.

3.41 Hefyd, dywedodd Better Media y dylem ddatblygu systemau monitro sy'n gallu cadw golwg ar newidiadau cymdeithasol mor agos i amser real â phosib, a chanolbwyntio ar y bobl sy'n lleiaf tebygol o allu fforddio neu gael mynediad at y gwasanaethau cyfryngau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Byddai'n hoffi ein gweld ni'n rhannu ein data a'n hymchwil yn gyhoeddus, ac yn hyrwyddo egwyddorion data agored.

## Ymateb Ofcom

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.42 Rydyn ni wedi ymrwymo i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i ddeall eu safbwyntiau ar ein cynigion ac yn croesawu sylwadau gan unrhyw un sydd â barn ar ein hymgyngoriadau. Mae hyn yn cynnwys rhanddeiliaid ac unigolion yn y diwydiannau, yn ogystal â grwpiau

defnyddwyr a chyrff cynghori sy'n ein helpu i ddeall profiadau pobl nad ydynt yn ymgysylltu â ni'n uniongyrchol o bosib.

3.43 Y tu allan i'n prosesau ymgynghori, rydyn ni'n mynd ati i drafod ag amrywiaeth eang o randdeiliaid a chael amrywiaeth eang o safbwyntiau. Mae gennym raglen ymchwil i'r farchnad sy'n ein galluogi i ddeall ymddygiad ac agweddau defnyddwyr mewn cysylltiad â'r sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Caiff yr ymchwil ei gomisiynu'n rheolaidd drwy arolygon tracio blynyddol, yn ogystal ag ymchwil pwrpasol i gael ymateb defnyddwyr i fater neu gynnig penodol. Mae clywed gan grwpiau a chymunedau dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol ac y gallai cynnig effeithio arnynt yn benodol yn rhan bwysig o'n hymchwil i'r farchnad a'n gwaith cwmpasu, ac rydyn ni wedi diweddaru paragraff 4.8 yn ein canllawiau i adlewyrchu hyn.

3.44 Rydyn ni'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau ymchwil meintiol ac ansoddol, fel arolygon a grwpiau ffocws i ddysgu rhagor am brofiadau a dewisiadau dinasyddion a defnyddwyr. Ymysg yr enghreifftiau diweddar mae ein gwaith ar fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu a'n hadolygiad o anghenion defnyddwyr post. Mae rhywfaint o'n hymchwil yn canolbwyntio'n benodol ar bobl â chyflyrau sy'n effeithio / cyfyngu arnynt,[7] sy'n rhoi tystiolaeth inni o brofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig ac yn cynyddu ein hymwybyddiaeth a'n dealltwriaeth o'r grwpiau defnyddwyr hyn fel sefydliad.

3.45 Dyma rai o'r ffyrdd eraill rydyn ni'n ymgysylltu â gwahanol fathau o randdeiliaid:

a) cynnal digwyddiadau fel cynadleddau, er enghraifft Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr a'n digwyddiadau i ddeiliaid trwydded darlledu;[8]
b) ymgysylltu rheolaidd, parhaus ag elusennau sy'n cynrychioli amrywiaeth o grwpiau dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl anabl, a sefydliadau ag arbenigedd mewn anghydraddoldeb cymdeithasol;
c) gweithio gyda sefydliadau cymdeithas sifil (fel Cyngor ar Bopeth) ac ymgysylltu â chyrff cynghori gan gynnwys y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl.[9] Mae'r Paneli hyn yn cynnwys arbenigwyr annibynnol o amrywiaeth o gefndiroedd sy'n arbenigo'n benodol ar ddeall yr effeithiau posib ar grwpiau penodol o bobl yn sgil ein gwaith sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr.

3.46 Ar ben hynny, nod ein rhaglen waith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau yw helpu i wella dealltwriaeth, gwybodaeth a sgiliau ar-lein plant ac oedolion yn y DU. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys gwneud ymchwil, cefnogi sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol mewn cymunedau, a chyfeirio at yr adnoddau sydd ar gael i helpu pobl i ymgysylltu â'n gwaith.

3.47 I adlewyrchu pwysigrwydd sicrhau bod ein hymgyngoriadau'n gynhwysol, rydyn ni wedi penderfynu diwygio ein canllawiau i bwysleisio hyn (gweler paragraff 4.8) ac rydyn ni'n gweithio'n barhaus i wella ein cyfathrebiadau a'n hymgyngoriadau. Yn benodol, byddwn yn parhau i ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys grwpiau a chymunedau dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol) y mae ein cynigion yn debygol o effeithio arnynt. Fel yr esbonnir yn ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad dyddiedig 12

[7] Rydyn ni'n diweddaru'r set ddata hon bob yn ail flwyddyn.
[8] Er enghraifft, roedd adroddiad ar Radio Today ar ein digwyddiadau yng Nghaerdydd a Chaeredin.
[9] Sefydlwyd bod aelodau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ac aelodau'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn perthyn i'r naill gorff a'r llall yn 2012. Mae hyn yn golygu bod aelodau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, yn rhinwedd eu haelodaeth o'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, hefyd yn darparu cyngor i Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn a phobl anabl.

Ionawr 2021, bydd timau'n cael eu hannog i dreialu dulliau newydd ac arloesol i glywed gan y rheini yr effeithir arnynt, fel ymgysylltu uniongyrchol drwy gyfryngau cymdeithasol. Efallai y byddwn yn archwilio sut gall technoleg sy'n dod i'r amlwg chwarae rhan yn ein gwaith rheoleiddio, fel deallusrwydd artiffisial. Hefyd, efallai y byddwn yn cynnwys targedau i edrych yn ôl ar yr ymyriadau rheoleiddio rydyn ni wedi'u gwneud – cwblhau gwerthusiadau manwl o'n polisïau gan ganolbwyntio'n benodol ar y cymunedau yr effeithir arnynt.[10]

3.48 Byddwn hefyd yn ystyried a oes cyfleoedd pellach i ymgysylltu â sefydliadau allanol a chyrff cynghori, ond nid ydyn ni'n credu ei bod hi'n angenrheidiol sefydlu panel annibynnol ar gyfer adolygu ein hasesiadau effaith yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn debygol o fod yn draul anghymesur i lawer o waith Ofcom hefyd.

3.49 Byddwn yn parhau i ddibynnu ar wybodaeth gan randdeiliaid diwydiannau fel ffynhonnell allweddol o dystiolaeth o gostau a manteision ein cynnig i ddiwydiant.[11] Rydyn ni'n defnyddio'r dystiolaeth hon ochr yn ochr â thystiolaeth arall i'n helpu i ddeall effaith lawn ein cynigion.

## Data a monitro

3.50 Ar hyn o bryd, rydyn ni'n defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data yn ein gwaith, gan gynnwys ein hymchwil ein hunain i'r farchnad, sy'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan neu fel atodiad i'r ymgynghoriad penodol. Rydyn ni'n deall pwysigrwydd amrywiaeth data ac ystyried y defnyddwyr a'r dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ofalus. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ein traciwr fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu; ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd a Cyfryngau'r Genedl blynyddol;[12] ein defnydd newydd o ddata defnyddio gwasanaethau symudol ar lefel cwsmeriaid i adolygu effaith hysbysiadau diwedd contract; a'n hadroddiad blynyddol ar y BBC.[13] Mae gennym bolisi data agored hefyd, lle gall rhanddeiliaid ddod o hyd i ddolenni i'n setiau data cyhoeddus ac i'r amrywiol ystadegau rydyn ni'n eu cyhoeddi.

3.51 Gan ein bod yn dibynnu ar ddata masnachol sensitif weithiau wrth wneud ein penderfyniadau, ni ellir rhannu ein holl waith yn gyhoeddus. Ond rydyn ni'n cyhoeddi fersiynau wedi'u golygu o'n dadansoddiadau i gyd-fynd â'n hymgynghoriadau a'n datganiadau. Rydyn ni bob amser yn ystyried sut gallwn wella ein dealltwriaeth o'r sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio.

---

[10] Gweler tudalen 18. Mae ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad (sy'n cynnwys rhagair gan ein Prif Weithredwr) hefyd yn dangos pa mor bwysig yw amrywiaeth a chynhwysiad yn llygaid ein huwch arweinwyr, sy'n cynnwys sicrhau bod ein prosesau ymgynghori mor gynhwysol â phosib.

[11] Nodwn fod y gyfraith yn mynnu bod rhanddeiliaid yn darparu gwybodaeth gyflawn a chywir mewn ymateb i'n ceisiadau statudol am wybodaeth, a gallwn gymryd camau gorfodi (a allai gynnwys cosb ariannol) os na fyddant yn gwneud hynny.

[12] Mae ein hadroddiadau ymchwil Cysylltu'r Gwledydd a Cyfryngau'r Genedl yn archwilio'r prif dueddiadau yn y diwydiannau cyfathrebu a darlledu, gan gynnwys adroddiadau ar wahân ar gyfer pedair gwlad y DU. Mae'r adroddiadau diweddaraf wedi cynnwys ymchwil ar fand eang gwledig, mynediad microfusnesau at fand eang, a radio lleol.

[13] Mae ein hadroddiad blynyddol ar y BBC yn cynnwys adroddiad perfformiad rhyngweithiol, cynhwysfawr sy'n galluogi'r defnyddiwr i edrych ar yr ystod o ddata rydyn ni'n ei ddefnyddio fel rhan o'r asesiad hwnnw, gan gynnwys data defnyddio yn ôl oedran a data ar sut mae'r BBC yn gwasanaethu cymunedau amrywiol yn y DU.

# Asesu costau a manteision

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.52 Roedd ymatebion y rhanddeiliad yn tynnu sylw at y mathau o gostau maen nhw'n dymuno i Ofcom roi rhagor o bwys arnynt yn ein penderfyniadau, ac yn trafod ein hasesiad o gostau a manteision ansoddol (heb eu mesur).

3.53 Awgrymodd BT, Vodafone ac Openreach y dylem roi rhagor o bwys ar y costau i'r diwydiant yn ein hasesiadau. Y rheswm am hynny yw bod gwaith rheoleiddio'n gallu effeithio'n anuniongyrchol ar ddefnyddwyr o ganlyniad i'r effaith ehangach ar fusnesau unigol (ee costau sy'n gysylltiedig â systemau newydd ac amser rheoli) ac ar y diwydiant ehangach (ee effeithiau ar gystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi). Dywedodd Openreach fod y costau anuniongyrchol hyn yn golygu bod amcangyfrifon cost mewn asesiadau effaith yn isafswm. Dywedodd BT y dylid cynnwys asesu'r effeithiau posib ar gystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi fel un o'n prif egwyddorion.

3.54 Hefyd, mynegodd rhai rhanddeiliaid safbwyntiau ar sut rydyn ni'n asesu costau a manteision ansoddol. Pwysleisiodd BT ac Openreach pa mor bwysig yw cyflwyno tystiolaeth glir i gefnogi ein hasesiad o effaith manteision ansoddol, gan gynnwys amcangyfrif o raddfa neu wybodaeth arall i ganiatáu i randdeiliaid wneud sylwadau ar y dull gweithredu arfaethedig. Dywedodd Better Media y dylem esbonio pam ein bod wedi dewis dull penodol i asesu mantais ansoddol mewn ymgynghoriad, ac y dylai'r penderfyniadau hynny fod yn destun adolygiad annibynnol. Nododd hefyd nad yw'r canllawiau cyfredol yn crybwyll fframwaith moeseg. Dywedodd BT fod yn rhaid inni fod yn siŵr ein bod yn mesur manteision cynyddol i ddefnyddwyr yn sgil y polisi penodol rydyn ni'n ei ystyried, ac nad ydyn ni'n cynnwys newidiadau eraill i gwsmeriaid nad ydynt yn gysylltiedig â'r polisi.

3.55 Hefyd, cododd Better Media bryder penodol ynglŷn â phroblemau posib o ran rhagfarnau a rhagdybiaethau mewn "modelau ymddygiadaeth".

## Ymateb Ofcom

3.56 Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd ystyried effeithiau posib ein cynigion polisi o ran y costau i fusnesau yn ofalus, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn ein canllawiau. Rydyn ni bellach wedi cynnwys asesu'r effeithiau ar gystadleuaeth, buddsoddi ac arloesi, lle bo'n briodol, yn ein prif egwyddorion ym mharagraff 4.32 yn y canllawiau. Rydyn ni'n glir ynghylch pwysigrwydd buddsoddi ac wedi ehangu'r testun ar ystyried yr "effaith ar fusnesau" yn y blwch o dan baragraff 4.33 yn y canllawiau i bwysleisio hyn.

3.57 Rydyn ni'n cytuno â BT y dylai asesiadau effaith fesur effeithiau cynyddol ymyriad penodol ac mae hyn wedi'i nodi ym mhrif egwyddor (g) ym mharagraff 4.32 yn y canllawiau, lle rydyn ni'n dweud y byddwn "dim ond ystyried y costau a'r manteision a fyddai'n codi'n rhesymol o ganlyniad i roi polisi ar waith (yn wahanol i'r costau a'r manteision a fyddai'n codi beth bynnag)".

3.58 Mae'r canllawiau diwygiedig yn pwysleisio pa mor bwysig yw cyflwyno ein tystiolaeth a'n rhesymeg yn glir (gweler "Cyflwyno asesiadau effaith" isod hefyd). Rydyn ni wedi diwygio'r canllawiau i egluro pwysigrwydd tystiolaeth i ategu ein hasesiadau ansoddol a sicrhau y caiff y dystiolaeth hon ei chyflwyno'n glir mewn ymgyngoriadau a datganiadau (gweler paragraffau 4.32(c) a 4.48). Mae ein hymgyngoriadau a'n datganiadau yn nodi ffynonellau

ein tystiolaeth hefyd, ond efallai nad ydynt yn esbonio dewisiadau o ran methodoleg yn fanwl er mwyn bod yn gryno.

3.59 Rydyn ni’n derbyn ac yn ystyried y sylwadau ar ein methodolegau yn ystod y broses ymgynghori. Ni fyddai adolygiad annibynnol o’n holl benderfyniadau o ran methodoleg yn gymesur, ond lle bo’n berthnasol rydyn ni yn ymgynghori â’r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a’r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, academyddion annibynnol a/neu asiantaethau ymchwil. Nid ydyn ni’n cyhoeddi fframwaith moeseg ymchwil ar hyn o bryd ond mae Ofcom yn asesu’r risgiau sy’n gysylltiedig â defnyddio modelau a bob amser yn ceisio sicrhau bod ein data o’r ansawdd uchaf ac yn cynrychioli’r poblogaethau neu’r materion sy’n cael eu dadansoddi.

3.60 Mewn ymateb i bryderon Better Media, nid yw Ofcom yn defnyddio modelau ymddygiadaeth. Cyfeirir yn y canllawiau asesu effaith at dechnegau gwybodaeth am ymddygiad, a elwir yn economeg ymddygiadol weithiau. Rydyn ni’n cydnabod bod gan ddefnyddwyr gyfyngiadau a rhagfarnau gwybyddol, ac felly nad ydynt yn ymddwyn yn rhesymegol wrth wneud penderfyniadau bob amser. O ganlyniad, mae’n bwysig ystyried y cyfyngiadau hyn (ee ni all defnyddwyr ddadansoddi’r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt a defnyddio hewristeg) a rhagfarnau (ee rhagfarn o blaid y status quo, myopia neu ragfarn o ran gorhyder), ac ystyried hynny wrth asesu effaith bosib polisi, yn enwedig o ran dylunio ymyriadau posib. Gall hynny olygu defnyddio technegau ymddygiadol penodol (ee dewisiadau diofyn neu fathau eraill o bwniadau neu addasiadau i’r “bensaernïaeth dewis” mae defnyddwyr yn ei hwynebu) i helpu i gyfeirio defnyddwyr mewn ffyrdd penodol sy’n debygo o’u helwa (ond gan roi rhyddid iddynt wneud dewisiadau eraill ar yr un pryd).

# Dewisiadau a sefyllfaoedd gwrthffeithiol

### Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

## Dewisiadau

3.61 Gofynnodd Vodafone inni ystyried ystod ehangach o ddewisiadau yn ein prosesau llunio polisi, yn enwedig y rhai a gynigir gan y diwydiant, a darparu rhagor o wybodaeth am y gwahanol ddulliau gweithredu rydyn ni’n eu hystyried yn ein hasesiadau effaith ac ymgyngoriadau.

## Sefyllfaoedd gwrthffeithiol

3.62 Ymatebodd BT ac Openreach i’r ffocws uwch ar sefyllfaoedd gwrthffeithiol yn y canllawiau arfaethedig. Awgrymodd BT y dylid ystyried sefyllfaoedd gwrthffeithiol yn gynharach, wrth gwmpasu prosiect, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth wneud hynny. Gofynnodd Openreach inni ystyried asesu effeithiau yn erbyn mwy nag un sefyllfa wrthffeithiol pan fydd ansicrwydd ynghylch cyflwr marchnad a bod sefyllfaoedd gwrthffeithiol tebygol yn cefnogi gwahanol ddulliau gweithredu.

## Ymateb Ofcom

## Dewisiadau

3.63 Rydyn ni yn ystyried amrywiaeth o ddulliau gweithredu yn gynnar mewn prosiectau, fel y bo’n briodol yn ôl amcan penodol bob prosiect. Mae ein gwaith yn archwilio’r dulliau hyn yn gymesur â phwysigrwydd y penderfyniad mae’n rhaid inni ei wneud, ac ni fydd yn cael ei

gyhoeddi yn yr ymgynghoriad bob amser. Fodd bynnag, rydyn ni'n cytuno ei bod hi'n bwysig darparu digon o wybodaeth i randdeiliaid allu cwestiynu ein dulliau gweithredu arfaethedig, ac rydyn ni wedi ychwanegu testun at baragraff 4.48 yn yr adran 'Cyflwyno ein rhesymeg' yn y canllawiau i adlewyrchu hynny.

### Sefyllfaoedd gwrthffeithiol

3.64 Mae'r gwaith o ddylunio'r sefyllfa wrthffeithiol (hy y llinell sylfaen – y byd sydd ohoni – yr ydyn ni'n ei defnyddio i gymharu effeithiau posib ein hymyriad) yn dibynnu ar natur benodol yr ymyriad dan sylw. Felly, rydyn ni'n credu mai'r cam priodol inni roi ystyriaeth lawn i ddylunio sefyllfa wrthffeithiol yw'r cam 'Asesu cynnig'. Ond oherwydd bod dylunio'r sefyllfa wrthffeithiol hefyd yn dibynnu ar wybodaeth fanwl o'r farchnad y byddwn yn ymyrryd ynddi o bosib, rydyn ni wedi diwygio paragraff 4.10 yn y canllawiau i ddangos y gallwn hefyd ystyried y wybodaeth sydd ei hangen i'n helpu i ddeall y 'byd sydd ohoni' yn gynharach yn y cam 'Deall a chwmpasu'.

3.65 Mater o farn i Ofcom yw dylunio'r sefyllfa wrthffeithiol fwyaf tebygol a phriodol. Anaml iawn y bydd hi'n briodol cyflwyno mwy nag un sefyllfa wrthffeithiol. Os oes cryn ansicrwydd ynghylch cyflwr y farchnad a sut gallai ddatblygu, byddwn yn defnyddio profion sensitifrwydd a thechnegau eraill yn lle, ac yn nodi digwyddiadau posib yn glir (ee technoleg newydd wedi'i mabwysiadu'n eang ai peidio). Rydyn ni wedi ychwanegu paragraff newydd, 4.31, yn y canllawiau i adlewyrchu hyn.  Gallwn fabwysiadu dull pwyllog o reoleiddio pan fydd ansicrwydd arbennig o uchel oherwydd y risg o ganlyniadau anfwriadol. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallwn benderfynu monitro'r sefyllfa neu ymyrryd yn ysgafnach ac adolygu ein dull yn nes ymlaen, ar ôl cyfnod priodol.

# Asesu'r effeithiau ar grwpiau penodol o bobl

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.66 Barn gyffredinol ymatebwyr yw eu bod am inni fynd ymhellach o ran sut rydyn ni'n ystyried effeithiau cydraddoldeb a'u hasesu, yn enwedig sut gallwn hybu cyfleoedd cyfartal.

3.67 Dywedodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau na fydd gan unrhyw ddefnyddiwr, dinesydd na microfusnes yr union un anghenion ac y dylem ganolbwyntio ar yr effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig unigol, ond gan ystyried croestoriadedd hefyd.

3.68 Hefyd, dywedodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau y dylai'r canllawiau gyfeirio'n fwy penodol at yr effaith bosib ar wledydd y DU ac ar fusnesau lleiaf y DU. Nododd: *"Gall perchnogion microfusnesau wynebu haenau o niwed a'r un heriau â defnyddwyr unigol gan eu bod yn ddefnyddwyr eu hunain, yn ogystal â darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr. Mae ffactorau eraill fel byw mewn lleoliad anghysbell neu wledig, rhyngweithio rhwng polisïau'r DU a llywodraethau datganoledig a ffactorau dynol fel angen mynediad ychwanegol neu gymorth cyfathrebu yn gallu gwaethygu'r rhwystrau i gyfleoedd yn y sector hwn."*

3.69 Roedd Belong, Better Media ac LCR wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cyd-destun lleol yn ein penderfyniadau cyfryngau a darlledu. Ychwanegodd LCR y dylem ystyried unedau llai o ddaearyddiaeth wrth wneud penderfyniadau.

3.70 Hefyd dywedodd Belong y dylai'r canllawiau ystyried y ffordd mae gwahanol gymunedau a grwpiau'n gysylltiedig â'i gilydd.

## Ymateb Ofcom

3.71 Fel yr esbonnir ym mharagraff 3.12 uchod, rydyn ni wedi gwneud newidiadau amrywiol i Adrannau 2, 3 a 4 o'n canllawiau drafft i roi rhagor o amlygrwydd i'n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus ac i egluro ein bod yn ystyried y dyletswyddau hyn yng nghamau cyntaf prosiect wrth benderfynu a ddylid ymyrryd ai peidio, ac os ydyn ni'n ymyrryd, sut mae gwneud hynny. Rydyn ni hefyd wedi integreiddio ein hasesiad o'r effeithiau ar grwpiau penodol o bobl yn ein hasesiad cyffredinol o effaith prosiect i fynd i'r afael â phryderon y gallai ymddangos fel asesiad eilaidd.

3.72 Mae'r newidiadau i Adran 4 yn cynnwys is-adran newydd ar "Asesu'r effeithiau ar grwpiau penodol o bobl" lle rydyn ni'n dweud y byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn ystyried croestoriadedd a sut gallai cynnig gael effaith gronnol neu wahanol ar bobl sy'n perthyn i o leiaf un grŵp penodol. Rydyn ni hefyd wedi egluro y byddwn yn ystyried effeithiau uniongyrchol yn ogystal ag effeithiau anuniongyrchol.

3.73 Mae'r grwpiau penodol o bobl a nodir ym mharagraff 4.7 yn y canllawiau hefyd yn cyfeirio at bobl yng ngwledydd y DU, yn ogystal â microfusnesau.

3.74 Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cyd-destun lleol pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau lleol, a bod profiadau'n gallu amrywio ar draws y DU wrth wneud penderfyniadau cenedlaethol. Felly, rydyn ni wedi penderfynu ychwanegu daearyddiaeth fel enghraifft o faes i'w ystyried wrth asesu effeithiau yn Adran 4 o'r canllawiau (gweler y blwch o dan baragraff 4.33). Lle bo'n berthnasol, byddwn yn ystyried sut gallai effeithiau polisi amrywio rhwng gwahanol rannau o'r wlad ac rydyn ni wedi cynnwys cyfeiriad at ystyried yr effaith ar wledydd, rhanbarthau a chymunedau'r DU ym mharagraff 4.7 yn y canllawiau. Byddwn yn ystyried beth gallai fod yn briodol ac yn bosib fesul achos, gan nodi na fydd hi'n bosib inni ystyried effaith cynnig ar bob cymuned leol yn y DU.

3.75 Yng ngoleuni ein dyletswydd i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a phobl nad ydynt yn gwneud hynny, lle bo'n bosib byddwn yn ystyried sut gallai cynnig effeithio ar y rhyngweithio rhwng gwahanol grwpiau.

# Cyflwyno asesiadau effaith

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.76 Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â ni ei bod hi'n bwysig iawn cyflwyno'r rhesymeg a'r dystiolaeth sy'n ategu ein penderfyniadau, ein hymgyngoriadau a'n datganiadau yn glir.

3.77 Roedd Openreach a Vodafone yn cytuno â'n hegwyddor y dylid cynnwys crynodeb clir o'r asesiad effaith yn ein hymgyngoriadau.

3.78 Awgrymodd Vodafone y dylem ddefnyddio templed safonol ar gyfer ein hasesiadau effaith, tebyg i'r un a ddefnyddir gan adrannau o'r llywodraeth.

3.79 Awgrymodd Better Media y dylai ein prosesau a'n modelau asesu effaith fod ar gael yn gyhoeddus.

3.80 Dywedodd hefyd, pan fyddwn yn cynhyrchu dogfennau syml, na ddylai hyn olygu lleihau'r cymorth i bobl o grwpiau lleiafrifol neu dybio nad yw dinasyddion a defnyddwyr y DU yn gallu deall y materion cymhleth dan sylw. Argymhellodd ein bod yn cynnal adolygiad parhaus

o sut mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn sicrhau bod dogfennau'n hawdd eu deall ac yn hygyrch i bobl â gwahanol anghenion.

## Ymateb Ofcom

3.81 Rydyn ni'n cytuno ei bod hi'n bwysig cyflwyno ein tystiolaeth a'n rhesymeg yn glir mewn dogfennau ymgynghori er mwyn i randdeiliaid allu ymgysylltu â'n hasesiadau effaith. Rydyn ni wedi penderfynu ychwanegu paragraff newydd (4.48) at y canllawiau i adlewyrchu pwysigrwydd hyn.

3.82 Oherwydd y mathau amrywiol o benderfyniadau mae Ofcom yn eu gwneud – o ymyriadau sy'n effeithio ar farchnad gyfan i benderfyniadau trwyddedu unigol – nid ydyn ni'n teimlo bod templed safonol yn briodol. Fodd bynnag, drwy gynnwys adran wedi'i labelu'n glir sy'n crynhoi'r effaith rydyn ni'n disgwyl i ymyriad ei chael a chyfeirio darllenwyr at ragor o fanylion yn y ddogfen, dylai hynny alluogi rhanddeiliaid i ddeall ein rhesymeg yn well (gweler paragraff 2.20 yn ein canllawiau).

3.83 Rydyn ni'n cyhoeddi'r modelau a'r data wedi'u golygu a ddefnyddiwyd gennym yn ein hasesiadau effaith fel atodiadau i'r ymgynghoriad lle bo hynny'n bosib. Mae ein defnydd o ddeunydd masnachol sensitif yn golygu na ellir cyhoeddi ein holl waith dadansoddi. Rydyn ni wedi ymrwymo i egwyddorion data agored, fel y trafodir yn yr adran ar gasglu gwybodaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid uchod.

3.84 Mae ein hegwyddorion ymgynghori yn nodi ein hymrwymiad i'w gwneud hi'n hawdd deall ymgyngoriadau ac ymateb iddynt, ac ar gyfer pob ymgynghoriad rydyn ni'n ystyried y ffordd orau o sicrhau bod ein dogfennau'n hygyrch. Mae hyn yn cynnwys darparu trosolwg byr, penawdau adrannau clir, a sicrhau bod ein dogfennau cyhoeddedig yn bodloni safonau hygyrchedd cyrff y sector cyhoeddus. Gall pobl wneud cais am ddogfennau mewn fformatau gwahanol hefyd, fel PDF hygyrch, print bras, hawdd ei ddarllen, recordiad sain neu braille.[14] Pan fydd gwybodaeth yn arbennig o bwysig i grwpiau penodol, efallai y byddwn yn cynhyrchu ein gwaith mewn fformatau eraill, fel y fideo Iaith Arwyddion Prydain yn esbonio ein datganiad cyfnewid fideo brys.[15] Nid ydyn ni'n bwriadu cynnal adolygiad parhaus ond rydyn ni'n croesawu sylwadau ar hygyrchedd ein dogfennau. I wneud cais am ddogfennau mewn fformatau gwahanol, neu i roi gwybod am broblemau hygyrchedd ar ein gwefan, cysylltwch â ni yma.

# Adolygu ein penderfyniadau a'n canllawiau

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

### Adolygu ein polisïau a'n hasesiadau effaith

3.85 Roedd Vodafone a BT yn cefnogi ein defnydd o werthusiadau terfyn rhaglen ar gyfer polisïau. Awgrymodd BT y dylem weithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar y gwerthusiadau hyn i wneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael ac i wirio ein methodoleg. Roedd Better Media wedi

[14] Gweler ein datganiad hygyrchedd ar gyfer ein gwefan (https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/website/accessibility)

[15] Rydyn ni hefyd yn mynnu bod darparwyr cyfathrebiadau yn darparu ystod o wasanaethau sydd wedi'u cynllunio i fod o fudd i bobl anabl: https://www.ofcom.org.uk/cymru/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/accessibility/services-for-disabled-people

galw am adolygiadau rheolaidd o'n polisïau a dywedodd y dylai ein hasesiadau effaith nodi pryd bydd y polisi'n cael ei adolygu.

3.86 Awgrymodd Vodafone y dylem ddilyn defnydd y Llywodraeth o'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio a sicrhau bod ein hasesiadau effaith yn cael eu hadolygu'n annibynnol pan fydd y costau'n fwy na swm penodol.

3.87 Dywedodd Vodafone, BT ac LCR y dylem adolygu a monitro effaith gyfunol ein penderfyniadau yn gyffredinol, yn hytrach nag ystyried effaith penderfyniad ar ei ben ei hun.

3.88 Ychwanegodd LCR y dylai Ofcom gynnal asesiadau effaith newydd mewn rhai meysydd, yn benodol i sicrhau bod y penderfyniad i fynd ar drywydd darlledu sain digidol ar raddfa fach (SSDAB) yn unig yn dal yn gadarn yng ngoleuni'r polisi newydd i adolygu asesiadau effaith o bryd i'w gilydd.

### Adolygu ein canllawiau asesu effaith

3.89 Roedd Vodafone a Better Media wedi galw am adolygiad rheolaidd o'n prosesau asesu effaith. Dywedodd Better Media y dylai hyn fod yn adolygiad treigl, gan weithio gyda sefydliadau annibynnol sy'n cael eu harwain gan ymchwil.

## Ymateb Ofcom

### Adolygu ein polisïau a'n hasesiadau effaith

3.90 Rydyn ni'n croesawu cefnogaeth i'n rhaglen barhaus o werthusiadau terfyn rhaglen. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu gyda mewnbwn gan randdeiliaid. Rydyn ni wedi ychwanegu paragraff newydd, 4.39, at ein canllawiau i esbonio "os ydyn ni'n cynnig adolygu ein penderfyniad ar ôl cyfnod penodol, byddwn yn nodi hyn yn ein dogfennau ymgynghori a'n datganiad". Rydyn ni hefyd wedi pwysleisio ein dyletswyddau o dan adrannau 3(4) a 6(1) o Ddeddf 2003 i hybu a hwyluso'r datblygiad a'r defnydd o fathau effeithiol o hunan-reoleiddio ac i adolygu ein polisïau yn barhaus (gweler paragraff 4.42).

3.91 Byddai'n anghymesur adolygu pob penderfyniad a wnawn yn rheolaidd ond mae'r ymyriadau mwyaf sylweddol, yn ein barn ni, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd naill ai fel gofyniad statudol neu fel y bo'n briodol yn ein barn ni. Mae enghreifftiau'n cynnwys ein hadolygiadau cyfnodol o'r farchnad telegyfathrebiadau, ymgyngoriadau strategol, ac adroddiadau blynyddol yn y sectorau cyfryngau a thelegyfathrebiadau. Rydyn ni hefyd yn monitro'r marchnadoedd rydyn ni'n eu rheoleiddio gan ddefnyddio ymchwil defnyddwyr a data'r diwydiant, ac yn adolygu ein dulliau polisi pan fyddwn yn gweld newidiadau yng nghyflwr y farchnad neu nodweddion newydd.

3.92 Fel rheoleiddiwr annibynnol, nid yw ein hasesiadau effaith yn rhan o ddyletswyddau'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio. Byddai sefydlu pwyllgor annibynnol yn gofyn am gyllid sylweddol a fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r cwmnïau rydyn ni'n eu rheoleiddio, ac o bosib i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae nodi'n glir yr effaith bosib rydyn ni'n disgwyl i bolisi ei chael yn yr ymgynghoriad yn caniatáu i unrhyw rhanddeiliad fynegi pryderon ynglŷn â'r fethodoleg neu'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd.

3.93 Ar hyn o bryd, nid ydyn ni'n adrodd ar effaith gyfunol ein penderfyniadau yn gyffredinol. Mae gennym ddiddordeb cyffredinol mewn deall gwerth ein gwaith a byddwn yn parhau i adolygu ein dull gweithredu. Fodd bynnag, rydyn ni yn ystyried diwydiannau ehangach yn ein gwaith ymchwil a strategaeth, yn ogystal â'r ymyriadau polisi penodol sydd dan sylw yn ein hymgyngoriadau. Fel yr esbonnir ym mharagraff 4.32(j) yn ein canllawiau, pan fyddwn yn

cynnig ymyriad byddwn, “lle bo’n berthnasol, yn ystyried polisïau eraill a allai effeithio ar ganlyniad ein camau gweithredu, a allai fod yn bolisïau eraill Ofcom neu’n gam gweithredu disgwyliedig gan lywodraeth neu gorff arall”.

3.94 Mewn ymateb i sylw penodol yr LCR ynghylch SSDAB, nodwn fod ein Datganiad ar Drwyddedu DAB ar raddfa fach dyddiedig 7 Ebrill 2020 yn esbonio y byddem, ar ôl rowndiau trwyddedu olynol, yn adolygu ein polisi trwyddedu ac yn ystyried a ddylid parhau i flaenoriaethu SSDAB gan ystyried lefel y galw (gweler paragraffau 3.18 a 7.24 yn y datganiad hwnnw). Ar 12 Mai 2022, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad o’r galw yn y tair rownd drwyddedu gyntaf a phenderfynu parhau i flaenoriaethu SSDAB. Fel yr esboniwyd yn y ddogfen honno, rydyn ni’n parhau i adolygu’r mater.

3.95 Nodwn hefyd fod ein canllawiau asesu effaith yn esbonio y byddwn (i) yn parhau i ystyried ac adolygu effeithiau posib drwy gydol prosiect a, lle bo’n briodol, yn diwygio ein hasesiad effaith wrth i’n safbwyntiau ddatblygu (paragraff 2.11); a (ii) os credir ei bod yn briodol, byddwn yn monitro ac yn gwerthuso canlyniadau go iawn polisi mewn ffordd gymesur (paragraff 4.38).

### Adolygu ein canllawiau asesu effaith

3.96 Byddwn yn parhau i adolygu ein canllawiau a byddwn yn eu diweddaru o bryd i’w gilydd fel y bo’n briodol yn ein barn ni, er enghraifft pan fydd ein dyletswyddau’n newid. Bydd natur y diweddariad yn llywio a ydyn ni’n ymgynghori ar fersiwn wedi’i diweddaru o’n canllawiau ai peidio. Er enghraifft, efallai na fyddwn yn ymgynghori ar newidiadau sydd dim ond yn diweddaru’r canllawiau i nodi dyletswyddau newydd neu i ddiwygio cyfeiriadau at ddeddfwriaeth (er enghraifft, os a phan ddaw’r Bil Diogelwch Ar-lein yn gyfraith). Rydyn ni wedi ychwanegu paragraff newydd, 1.7, i adlewyrchu hyn yn y canllawiau.

3.97 Wrth baratoi’r canllawiau diweddaraf, rydyn ni wedi mynd ati i ddysgu gan sefydliadau eraill a sefydlu’r arferion gorau, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Nid ydyn ni’n credu ei bod hi’n angenrheidiol nac yn briodol sefydlu adolygiad annibynnol parhaus, ond rydyn ni’n croesawu ymgysylltiad â sefydliadau sy’n cael eu harwain gan ymchwil ar yr arferion gorau yn y meysydd rydyn ni’n eu rheoleiddio.

# Cydymffurfedd parhaus â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus

## Safbwyntiau'r rhanddeiliaid

3.98 Dywedodd Better Media y dylem adolygu’n barhaus sut rydyn ni’n asesu’r effeithiau posib ar gydraddoldeb drwy ddefnyddio fforymau rheolaidd a chynhwysol gyda sefydliadau polisi cyhoeddus a sefydliadau annibynnol sy’n cael eu harwain gan ymchwil. Awgrymodd hefyd y dylem wahodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i adolygu ein canllawiau ac yn fwy cyffredinol sut rydyn ni’n cydymffurfio â’n dyletswyddau cydraddoldeb.

3.99 Dywedodd LCR y dylai staff Ofcom gael hyfforddiant ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac y dylai Ofcom gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb.

3.100 Gofynnodd Better Media ac LCR a yw’r ffaith ein bod dim ond yn ymgynghori ar ddiweddaru ein canllawiau nawr yn golygu nad ydyn ni wedi bod yn cydymffurfio â’n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn flaenorol.

## Ymateb Ofcom

3.101 Cyfrifoldeb Ofcom yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cydraddoldeb sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Nid yw'n ofynnol i ni ymgynghori ag unrhyw drydydd parti, fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ond nodwn ei fod yn darparu canllawiau amrywiol ar ei wefan y gallwn gyfeirio atynt o bryd i'w gilydd.

3.102 Rydyn ni'n cymryd cydymffurfedd â'n rhwymedigaethau cydraddoldeb sector cyhoeddus o ddifrif ac mae'n ofynnol i staff gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb fel rhan o ddysgu gorfodol, sy'n cael ei gwblhau'n flynyddol fel rheol.

3.103 Rydyn ni hefyd yn darparu diweddariadau blynyddol ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud i wella ein dull o asesu goblygiadau cydraddoldeb ein gwaith – gweler, er enghraifft, Adran 3 o'n Diweddariad Cynnydd ar y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiad 2021/22. Rydyn ni'n ystyried sut byddwn yn dymuno darparu rhagor o adroddiadau ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o bosib. Mae dolenni eraill i'n gwaith amrywiaeth a chynhwysiad ar gael ar ein gwefan.

3.104 Rydyn ni wedi bod yn gwbl ymwybodol o'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ers iddynt ddod i rym ac wedi bod yn eu hystyried yn briodol mewn prosiectau ers hynny.

# 4. Crynodeb o’r newidiadau rydyn ni wedi’u gwneud

4.1 Ar sail yr ymatebion i’r ymgynghoriad a’n penderfyniadau a nodir yn Adran 3, rydyn ni wedi gwneud nifer o newidiadau i’n canllawiau. Mae’r prif newidiadau wedi’u crynhoi isod.

4.2 **Cynyddu amlygrwydd ein trafodaeth ar ein dyletswyddau cydraddoldeb:** Rydyn ni wedi cyfeirio’n gliriach at ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus yn gynharach yn y canllawiau. Rydyn ni wedi cydnabod ein dyletswydd i hybu cyfleoedd cyfartal yn fwy penodol ac wedi integreiddio trafodaeth o’n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus ym mhrif gorff y canllawiau, yn hytrach nag mewn adran ar wahân ar ‘ddyletswyddau statudol eraill’. Rydyn ni hefyd wedi nodi ystod ehangach o grwpiau penodol o bobl (gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig; pobl agored i niwed, gan gynnwys plant; pobl o wahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol; pobl mewn gwahanol wledydd, rhanbarthau a chymunedau; a phobl mewn ardaloedd trefol a gwledig) yn ein trafodaeth ar is-grwpiau perthnasol i’w hystyried fel rhan o asesiad effaith.

4.3 **Pwysleisio ein hymrwymiad i ymgyngoriadau cynhwysol:** Rydyn ni wedi rhoi rhagor o bwyslais ar yr amrywiaeth o brofiadau mae ein rhanddeiliaid yn eu cael o bosib o ran sut rydyn ni’n ystyried effeithiau posib ac o ran cyflwyno ein syniadau. Rydyn ni wedi cyfeirio o’r newydd at ystyried gwahanol ardaloedd lle bo hynny’n briodol (gan gynnwys y gwledydd, y rhanbarthau a’r cymunedau ledled y DU) ac at ddefnyddio ymchwil i’r farchnad i ddeall yr effeithiau ar bobl neu gymunedau penodol y mae ein penderfyniadau’n fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

4.4 **Pwysleisio’r effeithiau ar fuddsoddi, cystadleuaeth ac arloesi:** Rydyn ni wedi diwygio ein canllawiau i wneud ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf 2003 o ran buddsoddi, cystadleuaeth ac arloesi yn gliriach, ac i dynnu sylw mwy penodol at y materion hyn wrth drafod meysydd enghreifftiol i’w hystyried wrth gynnal asesiad effaith. Rydyn ni wedi ychwanegu ystyried buddsoddi, cystadleuaeth ac arloesi, lle bo hynny’n briodol, fel un o brif egwyddorion ein hasesiadau. Rydyn ni hefyd wedi egluro ein rhwymedigaeth gyfreithiol i adolygu ein gwaith rheoleiddio i sicrhau nad yw’n feichus heb fod rhaid.

4.5 **Yr adegau pan na fyddwn yn cynnal asesiad effaith / asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb:** Rydyn ni wedi egluro y bydd y penderfyniad ynghylch a oes angen inni gynnal asesiad effaith yn dibynnu ar natur y cynnig rydyn ni’n ei gyflwyno, yn benodol (i) a oes rhaid i Ofcom weithredu mewn ffordd benodol ac (ii) a yw cynnig unigol yn gweithredu polisi neu broses sydd eisoes wedi bod yn destun asesiad effaith. Rydyn ni wedi cynnwys rhai enghreifftiau ychwanegol o adegau pan na fyddwn, fel rheol, yn cynnal asesiad effaith ac wedi egluro pan na fyddwn yn cynnal asesiad effaith fel rhan o broses ymgynghori, byddwn yn esbonio pam. Yn yr un modd, rydyn ni wedi esbonio pryd y byddwn yn cynnal asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb fel rheol.

4.6 **Datblygu'r sefyllfa wrthffeithiol:** Rydyn ni wedi cynnwys testun newydd i esbonio bod gwaith i ddeall y byd sydd ohoni yn bwysig yn ystod y cam 'deall a chwmpasu' i helpu i ddatblygu sefyllfa wrthffeithiol ddiweddarach, ac y gallwn ddefnyddio dadansoddiad o sensitifrwydd i brofi cadernid ein rhagdybiaethau pan fo'r sefyllfa wrthffeithiol yn ansicr.

4.7 **Cyflwyno ein rhesymeg:** Rydyn ni wedi pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno ein tystiolaeth a'n rhesymeg yn glir, gan gynnwys y dulliau gweithredu y penderfynon beidio â'u defnyddio, a thystiolaeth ar gyfer effeithiau ansoddol.

# A1 Asesu effaith y newidiadau

## Asesiad effaith

A1.1 Mae Adran 7 o Ddeddf 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn ymgynghori ar ein hasesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Roeddem wedi cynnwys yr asesiad hwn yn adran 4 o'n hymgynghoriad a gyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2023.

A1.2 Gan ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad, rydyn ni wedi penderfynu diweddaru ein canllawiau asesu effaith, sy'n esbonio sut rydyn ni'n ystyried costau, manteision a risgiau'r penderfyniadau pwysig rydyn ni'n eu gwneud. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i gynnal asesiadau effaith, ac maen nhw'n adnodd defnyddiol ar gyfer llunio ac esbonio polisïau hefyd.

A1.3 Mae ein dyletswyddau a'n harferion asesu gorau wedi newid i raddau digonol ein bod wedi penderfynu creu dogfen newydd yn hytrach na dim ond golygu ein dogfen flaenorol. Fodd bynnag, mae prif egwyddorion ein gwaith wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ac yn cael eu hesbonio yn nogfennau eraill Ofcom fel ein Cynllun Gwaith a'n Hadroddiad Blynyddol. Mae ein canllawiau wedi'u diweddaru yn rhoi rhagor o bwyslais ar rai meysydd o'n gwaith, gan gynnwys ein dyletswyddau cydraddoldeb a sut bydd asesiad effaith yn cael ei gyflwyno mewn ymgynghoriad, ond nid yw'n cyflwyno egwyddorion sylfaenol newydd.

A1.4 Dyma'r prif fanteision rydyn ni'n disgwyl i'r canllawiau eu cael:

a) darparu rhagor o dryloywder yn ein proses gwneud penderfyniadau;
b) caniatáu i randdeiliaid gael gwybod am ein dull presennol o asesu effeithiau a'r dystiolaeth a'r rhesymeg sy'n sail i gynnig, a ddylai yn ei dro ganiatáu iddynt gymryd rhan lawn yn ein proses gwneud penderfyniadau ac ymateb gyda'u safbwyntiau a'u tystiolaeth eu hunain, a fydd yn seiliedig ar wybodaeth;
c) sicrhau bod ein penderfyniadau'n ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael;
d) sicrhau bod ein penderfyniadau'n gymesur a'n bod yn dewis y ffordd leiaf ymwthiol o gyflawni ein hamcanion;
e) sicrhau ein bod, yn y pen draw, yn gwneud y penderfyniadau gorau er budd dinasyddion a defnyddwyr.

A1.5 Y costau posib yw costau uwch i Ofcom wrth ddatblygu polisi ac i randdeiliaid sy'n ymgysylltu â ni. Fodd bynnag, mae'r rhain yn annhebygol o fod yn fawr a byddant yn gymesur â phwysigrwydd y penderfyniad rydyn ni'n ei wneud.

A1.6 Rydyn ni'n disgwyl mai'r brif risg i werth ein canllawiau diwygiedig yw arferion gorau a dyletswyddau cyfreithiol yn newid. Maen nhw wedi'u dylunio i fod yn hyblyg ac i gefnogi'r amrywiaeth o anghenion sydd gennym ar draws ein gwaith. Byddwn yn adolygu'r defnydd o'r canllawiau ac unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen, fel y bo'n briodol.

## Asesu'r effaith ar gydraddoldeb

A1.7 Rydyn ni hefyd wedi ystyried a fydd ein canllawiau wedi'u diweddaru yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys, yn fras, hil, oedran, anabledd,

rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU, a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a allant wahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gyfleoedd cyfartal neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

A1.8 Nid ydyn ni'n credu y bydd unrhyw ran o'r newidiadau i'n canllawiau asesu effaith ynddynt eu hunain yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb (a hynny yng Ngogledd Iwerddon neu yng ngweddill y DU). O ran sut rydyn ni'n sicrhau bod ein canllawiau'n adlewyrchu ein rhwymedigaethau cydraddoldeb presennol a sut rydyn ni'n bwriadu cydymffurfio â nhw, dylai ein canllawiau wedi'u diweddaru gael effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb. Yn benodol, dylai ddarparu tryloywder ychwanegol a chaniatáu i bobl gael gwybod am ein dull presennol o asesu'r effeithiau ar gydraddoldeb a'r dystiolaeth a'r rhesymeg sy'n sail i gynnig. Dylai hyn yn ei dro ganiatáu iddynt gymryd rhan lawn yn ein proses gwneud penderfyniadau ac ymateb gyda'u safbwyntiau a'u tystiolaeth eu hunain, a fydd yn seiliedig ar wybodaeth. Yn y pen draw, dylai hyn helpu ein prosesau ymgynghori i fod yn fwy cynhwysol a gwella ein prosesau gwneud penderfyniadau.

A1.9 Rydyn ni hefyd yn ystyried bod y newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud i'r fersiwn o'r canllawiau roeddem wedi ymgynghori arni yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb, yn benodol drwy wneud y canlynol:

a) rhoi rhagor o amlygrwydd i'n dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus drwy gyfeirio atynt yn gynharach yn y canllawiau ac integreiddio cyfeiriadau at y dyletswyddau hynny yn y canllawiau drwyddynt draw, yn hytrach nag mewn adran ar wahân ar y diwedd;
b) egluro y byddwn yn ystyried ein rhwymedigaethau cydraddoldeb sector cyhoeddus yng nghamau cynnar prosiect wrth benderfynu a ddylid ymyrryd, a sut mae gwneud hynny;
c) cydnabod yn fwy penodol ein dyletswydd i hybu cyfleoedd cyfartal.

## Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

A1.10 Mae ein canllawiau wedi'u diweddaru yn adlewyrchu ein rhwymedigaethau o ran y Gymraeg mewn cysylltiad â llunio polisïau. Mae ein dull o ystyried effeithiau ein polisïau yng Nghymru ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wedi'i nodi yn safonau 84 – 89 yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom, ac nid yw'r canllawiau hyn yn ei newid.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.